



Ysgol Pentreuchaf

104. Polisi Hunan Arfarnu

Nod

Sefydlu cyfundrefn a chanllawiau a fydd yn galluogi'r ysgol i arfarnu ei hun yn effeithiol. Byddwn yn dathlu llwyddiannau a chynllunio ymlaen ymhellach o'r rheini ac yn unodi gwendidau yn ein darpariaeth neu'n gweithrediad i godi disgwyliadau a safonau ym mhob pwnc ad agwedd. Bydd hefyd yn fodd i ni ddod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd ym myd addysg.

Amcanion

1. Sicrhau fod y broses Hunan Arfarnu yn plethu gyda gweddill systemau'r ysgol heb greu mwy o waith papur di-anghenraid a'i fod wedi ei seilio ar dystiolaeth uniongyrchol.
2. Creu dogfen gryno clir a defnyddiol sy'n bwydo i'r Cynllun Datblygu Ysgol.
3. Dwyn pawb sydd â diddordeb yn yr ysgol i mewn i'r broses.

Nodweddion Hunan Arfarnu Effeithiol (yn ôl ESTYN)

Mae Hunan Arfarnu effeithiol:

- yn agored ac yn onest
- yn mynd i'r afael yn bennaf â safonau ac ansawdd yr addysg.
- wedi'i wreiddio yn y cynllunio strategol ac yn tynnu ar weithdrefnau sicrhau ansawdd parhaus
- yn cynnwys yr holl staff ar bob lefel wrth asesu canlyniadau a'u perfformiad
- yn ceisio barn disgyblion fel mater o arfer ac yn ymgynghori â bud-ddeiliaid eraill, megis cyflogwyr a phartneriaid, lle bo hynny'n briodol
- yn ceisio llunio barn yng ngoleuni data perfformiad mesuradwy ac yn eisio unodi tueddiadau dros amser
- yn esgor ar gynlluniau datblygu sy'n cael eu monitro yn erbyn targedau ameyni prawf llwyddiant eglur
- yn arwain at safonau ac ansawdd gwell

Canllawiau

1. Defnyddir Llawlyfr Hunan Arfarnu a Chanllawiau Hunan Arfarnu Gwynedd a Môn fel man cychwyn ac i gynnig meini prawf addas mewn gwahanol feysydd.
2. Gwneud trosolwg ysgol gyfan drwy roi sylw i'r pynciau a rhoi barnau clir am bob un o'r tri Cwestiwn Allweddol gan gofio pwysigrwydd Cwestiwn Allweddol 1 (Safonau). Bydd hyn yn sicrhau fod pob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol yn cael ei archwilio a'i drafod.
3. Dansoddi data profion perfformiad ystadegol (meincnodol) gan gymharu gydag ysgolion tebyg, y dalgylch, y sir a Chymru, nodi tueddiadau dros amser gan gynnwys data sy'n ymwneud â chydarddoldeb cyfle a thangyflawnwyr.
4. Dadansoddi sgrïptiau er mwyn canfod agweddau penodol o'r pynciau craidd sydd angen sylw a chymharu canlyniadau bechgyn a merched.
5. Datblygu systemau ar gyfer targedu disgyblion. eu diweddarau yn ôl yr amgylchiadau a.y.y.b.
6. Cynnwys pawb sydd â diddordeb yn yr ysgol – y plant, rhieni, yr holl staff a'r Llywodraethwyr gan fod ganddynt i gyd rôl ganolog yn y broses. Bydd hyn yn digwydd drwy'r Cyngor Ysgol, holiaduron blynyddol a thrafodaethau anffurfiol a ffurfiol.
7. Derbyn adroddiadau tymhorol gan swyddogion yr AAL fydd yn ymweld â'r ysgol i drafod materion megis canlyniadau, AAA, Hunan Arfarnu, CDY a.y.y.b.
8. Cynllunio'n ofalus i oresgyn unrhyw broblemau ac i symud yr ysgol yn ei blaen – drwy'r CDY.

9. Y Corff Llywodraethu, y pennaeth a'r staff i fonitro gweithrediad y CDY yn ofalus gan greu adroddiad gryno am gyflawniad y flwyddyn flaenorol.

Casgliad

Mae'r broses Hunan Arfarnu yn cynnwys monitro perfformiad o bob math, dadansoddi a yw'r safonau mor uchel a phosib, gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu, cynllunio yr hyn sydd angen ei wneud a gosod amcanion a thargedau ar gyfer gwelliant, gan ddefnyddio meini prawf mesuradwy ble bo'n bosibl, gweithredu ar ganfyddiadau i godi safonau a gwella ansawdd yr addysg.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____